Canllaw Cysylltu Bywydau ar gyfer argyfwng iechyd meddwl

Cysylltu Bywydau
De Ddwyrain Cymru

Cydweithio:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chynllun Cysylltu Bywydau De Ddwyrain Cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Beth yw Cysylltu Bywydau ar gyfer argyfwng iechyd meddwl?

Mae'r prosiect Cysylltu Bywydau ar gyfer argyfwng iechyd meddwl yn rhoi dewis arall yn lle lleoliad ysbyty i gleifion mewnol, neu'n hwyluso bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty.

Mae'r prosiect wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n dangos bod unigolion sy'n dioddef o argyfwng iechyd meddwl yn gwella'n well os ydyn nhw'n teimlo'n rhan o'r gymuned, mewn lleoliad teuluol sy'n gefnogol, ac yn gallu cymryd rhan mewn trefn ddyddiol.

Mae gofalyddion Cysylltu Bywydau'n rhannu'u cartrefi, eu teulu a'u bywyd yn y gymuned gyda'r unigolyn, gan ddarparu diogelwch a chymorth gyda'r nod o ddatblygu a chynnal sgiliau byw'n anibynnol yn ogystal â chysylltiadau yn y gymuned.

Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn cael ei ddarparu ledled Gwent gan Gynllun Cysylltu Bywydau De Ddwyrain Cymru. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r awdurdod arweiniol.

Ar gyfer pwy mae'r prosiect?

Mae'r prosiect ar gyfer unigolion sy'n profi argyfwng iechyd meddwl ac a fyddai'n elwa o ofal a chymorth mewn amgylchedd teuluol yn hytrach nag aros yn yr ysbyty.

- Bydd timau argyfwng ac uwch staff y ward yn nodi unigolion a allai elwa o ddefnyddio'r prosiect Cysylltu Bywydau
- Mae canllawiau ar waith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau
- Caiff pob trefniant Cysylltu Bywydau asesiad risg ofalus
- Gall yr unigolyn aros gyda'r gofalydd Cysylltu Bywydau am hyd at bedair wythnos
- Caiff hyd yr arhosiad ei gytuno fesul achos ac mae'n dibynnu ar faint o gymorth sydd ei angen ar bob unigolyn

Cysylltu Bywydau
De Ddwyrain Cymru

Pwy yw'r gofalyddion Cysylltu Bywydau?

Caiff gofalyddion Cysylltu Bywydau eu recriwtio o'r gymuned leol ac yn mynd trwy broses asesu a chymeradwyo drylwyr. Maen nhw'n derbyn hyfforddiant a chymorth rheolaidd gan y tîm Cysylltu Bywydau. Cânt eu talu am y trefniadau maen nhw'n eu darparu.

Daw gofalyddion Cysylltu Bywydau o bob cefndir, ond eu nod cyffredin yw darparu cymorth cadarnhaol i unigolion yn eu cymuned. Does dim angen cymwysterau neu brofiad ffurfiol arnyn nhw, dim ond diddordeb gwirioneddol mewn helpu eraill. Maen nhw'n llawn cymhelliant ac wedi ymrwymo i gefnogi unigolion sydd mewn argyfwng.

Nid yw'n ofynnol i ofalyddion Cysylltu Bywydau ddarparu cymorth proffesiynol ar gyfer anghenion iechyd meddwl yr unigolyn. Mae staff proffesiynol o'r tîm argyfwng a thîm Cysylltu Bywydau'n ymweld yn rheolaidd, ac mae gan y gofalyddion gefnogaeth dros y ffôn 24 awr y dydd.

I ddarganfod mwy am y Cynllun:

Ffôn: **01443 864784**

e-bost: **cysylltubywydau@caerffili.gov.uk**

Ewch i'n gwefan: **www.caerffili.gov.uk/cysylltubywydau**

Gweithio mewn partneriaeth:

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI